# Dadorchuddio Patagonia: Y bywyd cymdeithasol gan Rhys Llewelyn
# Y Cymro, Ionawr 13, 2001


Wnes i erioed ddychmygu y byddai bywyd cymdeithasol y Wladfa yn ddi-baid. Yr argraff, neu'r camargraff rôn i wedi ei gael cyn dod yma, oedd mai lle tawel oedd yn fy aros. Buan iawn y des i sylwi nad oedd hynny'n wir.

Cychwynnodd yr holl beth gyda "social" yn Neuadd Dewi Sant, Trelew i'n croesawu i'r dyffryn. Roedd yn gyfle gwych i mi wneud mochyn o fy hun yn sglaffio danteithion melys fel y deisen ddu, y deisen hufen a bara cartref. Rôn i'n methu coelio chwaith pwy oedd o'm hamgylch i: roedd y bobl o'r un ffunud â'r Cymry adref; rhai hyd yn oed o'r un pryd a gwedd. Yr unig wahaniaeth oedd y Sbaeneg sy'n gyfrwng cyfathrebu i'r mwyafrif ohonynt ar wahân i'r Gymraeg gyda ni o'r Hen Wlad. Ar y noson ganlynol, a minnau newydd gyrraedd ers deuddydd, cafwyd Noson Lawen i'n croesawu yn yr Hen Gapel Bethel, Gaiman - mewn adeilad oedd yn adlewyrchu unrhyw gapel yng Nghymru. Fe'm diddanwyd gan ddoniau cerddorol rhai fel Billy Hughes a Roberto Jones, plant Coleg Camwy yn dawnsio gwerin, ac eraill yn actio ac yn adrodd; ynghyd â chaneuon noson lawen megis Ffrans, Migldi Magldi a Chyfri'r Geifr i ddiweddu. Noson fythgofiadwy.

Mae'r Gwladfawyr yn rai arbennig am godi arian. Nid peth anarferol, er enghraifft, yw cael pnawniau te yn Neuadd Dewi Sant, i gasglu arian. Ar hyn o bryd maent yn codi clamp o dŷ newydd sbon danlli tu ôl i Gapel Tabernacl ar gyfer y gweinidog. $8 yw pris y tocyn fel arfer (llai na £6), ac wedyn cewch rwydd hynt i fwyta'n ddiddiwedd nes dach chi'n methu symud. Y cyngor gorau ydy mynd gyda stumog wag achos mae'r holl ddanteithion melys yn ormod o demtasiwn yn aml, a rhaid tyrchu iddyn nhw heb oedi! Arferiad mewn digwyddiadau o'r fath yw derbyn anrheg fach "gwaith llaw" i gofio'r achlysur megis llun o dŷ gyda'r dyddiad ac ati.

Cawn anrheg yr un modd mewn parti pen blwydd neu briodas. Arferiad mewn rhai pen blwyddi dw i wedi bod ynddynt, yw cael te Cymreig, asado neu empanadas (pastai gyda chig neu gaws a ham) gyda gwin. Achlysur go arbennig fu priodas Gabriel Restucha a Lucía Besada ym mis Awst y llynedd. Y drefn yma yw priodi'n swyddogol mewn cofrestrfa, a chael y fendith yn ddiweddarach mewn capel neu eglwys. Yn achos y briodas hon, derbyniodd Gabriel a Lucia y fendith yng Nghapel Bethel, y Gaiman. Roedd y capel yn orlawn, a'r gwasanaeth yn hyfryd, ond pan ganodd Billy Hughes yn Gymraeg aeth ias i lawr fy nghefn. Nid yw priodas yn gyflawn yn yr Ariannin heb osgordd geir o amgylch y dref, felly, yn dilyn y gwasanaeth roedd pawb yn tanio eu ceir ac yn dilyn y pâr priod, dan ganu cyrn yn barhaus. Profiad a hanner – dychmygwch fynd o amgylch y Gaiman am 10 o'r gloch y nos yn creu cymaint o sŵn! Wedyn, bu gwledd enfawr gyda tua 250 o bobl yng Ngholeg Amaethyddol Bryn Gwyn. Cafwyd asado blasus, a dawnsio gwefreiddiol o'r traddodiadol i'r modern tan oriau mân y diwrnod canlynol.

Pob nos Wener, cynhelir y "Bwthyn Bach" yn y Gaiman. Cafodd ei sefydlu'n wreiddiol yn 1992 ar gyfer dysgwyr y Gymraeg. Bellach, mae'r Bwthyn wedi tyfu yn ei boblogrwydd, ac fe all ddenu hyd at bump ar hugain o ddynion, gyda'u hanner yn gallu siarad Cymraeg ac eraill yn dysgu. Uchafbwynt y noson heb-os ydy'r asado, sy'n gallu cynnwys oen, darn o fuwch neu chorizos (sosejis) gyda bara a gwin. Yn fwy diweddar, mae yna bwdin wedi ei ychwanegu at y fwydlen. Mae'n ddefod canu caneuon Sbaeneg a Chymraeg dan arweiniad Billy Hughes, Jorge neu Hector Ariel. Noson dawel, hamddenol, a chyfle i roi'r byd yn ei le. Bydd hogiau'r bwthyn yn cael crys "T" wedi ei lunio yn y dyfodol, ond allwn ni ddim dadorchuddio gormod (!!) rhag ofn i Ferched y Nos (pwy bynnag ydy'r rheini!!!.....) ddwyn ein syniadau ni!.....




Mae'r dafarn Na Petko, Gaiman, sy'n diferu o hen greiriau hanesyddol, yn gyrchfan go arbennig os yw Jorge, Marcello Griffiths neu Fabio Gonzalez yno'n canu. Does dim byd gwell nag eistedd yn ôl, yn gwrando ar berfformiadau grymus yr hogiau lleol hyn. Mae'r Davarn Las wedyn yn le delfrydol i gymysgu gyda'r to iau, ac yma y byddaf yn mwynhau nosweithiau Gwener. Ond y lle i fod ar y funud yw'r traeth tu draw i Rawson - Playa Union – dyma ail gartref rhai o bobl y dyffryn dros wyliau'r haf "yr hafod". Mae yma dai moethus, tafarndai diri a chlybiau nos fel Dimensión (sy'n newydd) ac yma bydd pobl ifainc yn eu degau yn heidio i fwrw'r nos. O ganlyniad, mae clwb nos Morena yn Nhrelew ar gau tan fis Chwefror.

Defod flynyddol arall yw heidio i wersylla ar draeth pentref bach twristaidd, "Piramides" sydd 153 km i'r gogledd o Drelew yn ystod penwythnos cyntaf o Ionawr. Ges i'r fraint o dreulio noson yno yn bwyta asado, yfed Quilmes a dawnsio (neu geisio!) ar y traeth efo tua 300 o bobl ifanc tan i'r wawr godi. Y diwrnod wedyn, roedd cystadleuaeth driphlyg: nofio, beicio a rhedeg. Wnes i ddim cystadlu yn anffodus er y byddai wedi gwneud lles i mi achos dw i'n pesgi fel morfil ar ôl bwyta'r holl ddanteithion melys yma! Roedd bron pawb yno yn denau fel polion – yn mynychu'r gampfa i gyd am wn i (sy'n beth gwbl gyffredin yma) ac wedi hen sugno'r haul, a minnau wedyn fel carton o Lefrith Llŷn yn eu canol nhw. Dyna i chi olygfa!!

Byddai'r Gwladfawyr wrth eu bodd petai yna barti neu gôr yn dod drosodd yma o Gymru i'w diddanu mewn cyngherddau. Clywais si ar led bod Meibion Llywarch o

barthau'r Bala wedi rhyddhau cryno ddisg dros y Dolig. Beth am daith i'r Wladfa i ddathlu'r achlysur? Fe allwn eich cynorthwyo i drefnu taith o'r fath….

Gallwn draethu am byth am y bywyd cymdeithasol. Dyna i chi flas o'm profiadau i yma yn y Wladfa. Blwyddyn newydd dda.

